# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## Adroddiad (SLC(3) 14-08)

Dyddiad: 3 Mehefin 2008
Amser: 8.45am
Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd

### Cynnwys

Cyfarfu'r pwyllgor ar 3 Mehefin 2008. Roedd yr Aelodau pwyllgor a ganlyn yn bresennol yn y cyfarfod: Dr Dai Lloyd AC, Eleanor Burnham AC, Andrew RT Davies AC, Irene James AC.

Mae adroddiadau'r pwyllgor i'r Cynulliad fel a ganlyn:

Offerynnau ac offerynnau drafft na fydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2.

Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol).

### SLC160 - Gorchymyn Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol (Cymru) (Diwygio) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe'i gwnaed ar 13 Mai 2008. Fe'i gosodwyd ar 14 Mai 2008. Yn dod i rym ar 12 Mehefin 2008.

### SLC163 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) (Diwygio) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 19 Mai 2008. Fe'u gosodwyd ar 21 Mai 2008. Yn dod i rym ar 16 Mehefin 2008.

### SLC164 - Rheoliadau Erthylu (Diwygio) (Cymru) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 21 Mai 2008. Fe'u gosodwyd ar 22 Mai 2008. Yn dod i rym ar 17 Mehefin 2008.

### SLC165 - Rheoliadau Brasterau Taenadwy (Safonau Marchnata) a Llaeth a Chynhyrchion Llaeth (Diogelu Dynodiadau) (Cymru) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 21 Mai 2008. Fe'u gosodwyd ar 22 Mai 2008. Yn dod i rym ar 1 Gorffennaf 2008.

### Offerynnau ac offerynnau drafft y bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2

### Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

### SLC157 - Rheoliadau Labelu Bwyd (Datgan Alergenau) (Cymru) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 6 Mai 2008. Fe'u gosodwyd ar 8 Mai 2008. Yn dod i rym ar 31 Mai 2008.

### SLC158 - Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 7 Mai 2008. Fe'u gosodwyd ar 9 Mai 2008. Yn dod i rym ar 30 Mai 2008. Ceir Adroddiadau'r pwyllgor o dan Reol Sefydlog 15.2 ar yr Offerynnau Statudol sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol) yn Atodiad 1 a 2 i'r Adroddiad hwn

Dr Dai Lloyd AM
Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth
3 Mehefin 2008

## Atodiad 1

## Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## (SLC(3)-14-08)

### SLC157

### Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

O dan Reol Sefydlog 15.2 bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn a ganlyn.

### Teitl: Rheoliadau Labelu Bwyd (Datgan Alergenau) (Cymru) 2008

- yn diwygio Rheoliadau Labelu Bwyd 1996 ("y prif Reoliadau") ymhellach i'r graddau y maent yn gymwys o ran Cymru. Mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu yng Nghymru Gyfarwyddeb y Comisiwn Rhif 2007/68/EC y 27 Tachwedd 2007 (OJ Rhif L310, 28.11.2007, p. 11) sy'n diwygio Atodlen IIIa i Gyfarwyddeb 2000/13/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran cynhwysion bwyd penodol), i eithrio'n barhaol rai cynhwysion bwyd rhag eu labelu, oherwydd, o ganlyniad i brosesu, nad ydynt bellach yn cynnwys yr elfen alergenig. Mae'r cynhwysion o dan sylw yn gynhwysion sy'n debygol o achosi adwaith alergaidd mewn rhai defnyddwyr. Mae'r Rheoliadau yn diwygio'r prif Reoliadau o ran y gofynion labelu ar gyfer bwydydd sy'n cynnwys cynhwysion alergenig ac yn darparu cyfnod trosiannol ar gyfer bwydydd sy'n cael eu marcio, eu labelu neu eu gwerthu cyn 31 Mai 2009.

### Gweithdrefn : Negyddol

O dan Reol Sefydlog 15.2 (vi) bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn hwn (bod gwaith drafftio'r offeryn yn ddiffygiol a (vii) ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr y testun Cymraeg a'r testun Saesneg.

Mae'r Atodlen i'r fersiwn Saesneg o'r Rheoliadau yn cyfeirio at "Content to be inserted as Schedule A1 to the Food Labelling regulations 1996", pan ddylai'r cyfeiriad at yr Atodlen mewn gwirionedd ddarllen "Schedule AA1".
Yn yr un modd mae'r Atodlen i'r fersiwn Gymraeg o'r Rheoliadau hefyd yn cyfeirio at "A1", pan ddylai mewn gwirionedd ddarllen "AA1".
Mae fersiwn Gymraeg y Rheoliadau yn cyfeirio at "Reoliad 2 (6)" pan ddylai mewn gwirionedd ddarllen "rheoliad 2 (7)", er mwyn adlewyrchu fersiwn Saesneg y Rheoliadau.

### Mae'r Llywodraeth wedi ymateb fel a ganlyn:-

Mae'r Llywodraeth wedi datgan ei bod yn derbyn y pwyntiau adrodd a grybwyllir uchod. Nid yw'r gwallau yr adroddwyd arnynt yn debygol o achosi unrhyw gamddealltwriaeth ac yn unol â hynny, diwygir y Rheoliadau er mwyn cywiro'r drafftio gwallus pan gaiff y Rheoliadau eu diwygio nesaf.

Dr Dai Lloyd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth
3 Mehefin 2008

# Atodiad 2

# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

# (SLC(3)-14-08)

### SLC158

### Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

O dan Reol Sefydlog 15.2 bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn a ganlyn.

### Teitl: Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) 2008

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer cymorth ariannol i fyfyrwyr sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ac sy'n dilyn cyrsiau addysg uwch dynodedig mewn perthynas â blynyddoedd academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2008. Maent yn cydgrynhoi, gyda rhai newidiadau, Reoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) 2007, fel y'u diwygiwyd.

### Gweithdrefn : Negyddol

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 15.2. Mae testun Cymraeg rheoliad 4(7) yn ddatganiad nad oes iddo ganlyniad amlwg. Gan fod y testun Saesneg yn eglur, mae'n ymddangos bod angen diwygio'r testun Cymraeg er mwyn sicrhau bod effaith y ddau destun yr un fath. [Rheol Sefydlog 15.2(vii)]. Mae Rheoliad 7(2) yn cynnwys croesgyfeiriad at baragraffau (4) a (5). Mae'n ymddangos y dylai gynnwys croesgyfeiriad at baragraff (3) hefyd. [Rheol Sefydlog 15.2(vi)]. Mae Rheoliad 21(1) yn cynnwys croesgyfeiriad at baragraff (9), ond nid oes paragraff o'r fath yn bodoli. Nid yw'r bwriad yn eglur. [Rheol Sefydlog 15.2(vi)]. Mae Rheoliad 27(6)(b) yn cynnwys croesgyfeiriad at "uchafswm wythnosol perthnasol ym mharagraff (4)", ond nid yw paragraff (4) yn cyfeirio at symiau wythnosol. Efallai mai'r bwriad oedd cyfeirio at baragraff (5). [Rheol Sefydlog 15.2(vi)]. Mae Rheoliad 30(f) yn y testun Cymraeg (30(h) yn y testun Saesneg) yn cynnwys croesgyfeiriad at ei hun, a hynny'n gwbl ddiystyr. Nid yw'n eglur a ddylai fod wedi cyfeirio at baragraff gwahanol neu a ddylai fod wedi cael ei ddileu. [Rheol Sefydlog 15.2(vi)]. Mae Rheoliad 38(7) yn cynnwys croesgyfeiriad at ei hun a hynny'n gwbl ddiystyr. Nid yw'n eglur a ddylai fod wedi cyfeirio at baragraff gwahanol neu a ddylai fod wedi cael ei ddileu. [Rheol Sefydlog 15.2(vi)].

### Mae'r Llywodraeth wedi ymateb fel a ganlyn:-

Mae’r Llywodraeth wedi nodi ei bod yn derbyn y pwyntiau adrodd a grybwyllir uchod, ond nid yw’n bwriadu cymryd unrhyw gamau ar hyn o bryd gan fod y Rheoliadau’n mynd i gael eu diwygio o fewn y 6 mis nesaf.

Dr Dai Lloyd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth
3 Mehefin 2008